## ROL WILLIAMS ac apêl

# Y CABAN COCH



*Emyr Humphreys yn 'agor yn swyddogol' gaban coch Guto Roberts pan gafwyd Noson Lawen a chasglu tros £350 i Gronfa Goffa Saunders Lewis.*

MAE'N eithaf teg dweud mai ychydig o ddiddordeb sydd gan y rhelyw o ddefnyddwyr y ffordd fawr yn y cabanau coch a welir yma ac acw, er bod ambell un yn cofio ble gellir dod ar eu traws mewn argyfwng. Fu yna fawr o gynnwrf pan wnaeth *British Telecom* i ffwrdd â'r caban coch yn 1984 ond mae trigolion y mannau lle ceir caban coch o hyd am fynnu ei gadw — lleoedd fel Bodffari, Capel Curig a Chapel Garmon.

Mae un ym Metws Garmon hefyd, ond bod swyddogion y Parc Cenedlaethol yn mynnu mai llwyd (digon di-raen hefyd) ddylai ei wedd fod.

Y gŵr a gysylltir â'r caban teleffôn yw Syr Giles Gilbert Scott — pensaer byd-enwog ac mae'n anodd dirnad mai'r un gŵr a fu'n gyfrifol am gynllunio Eglwys Gadeiriol Lerpwl, Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt, pwerdy enwog Battersea, a chaban coch y Gyrn Goch a Bethesda Bach!

Yn 1926 yr ymddangosodd ei gaban cyntaf ar strydoedd Llundain a'i fedyddio yn deip 'K2' — aflwyddiant fu'r 'K1' o gynllun arall. 'Roedd gwneuthuriad caban Syr Giles yn chwyldroadol — nid yn unig am ei fod yn goch ond roedd wedi ei wneud o haearn gyda drws pren iddo.

Yn ychwanegol, ac o bwysigrwydd mawr 'roedd iddo ddeunaw o ffenestri bychain — chwe rhes o dair ffenestr o'r un maint — ar dair ochr y caban, gan gynnwys y drws.

Cynhyrchwyd wyth mil o'r rhain am £35 yr un ac amcangyfrifir fod oddeutu dau gant ohonynt ar ôl o hyd.

Methiant fu'r teip nesaf, y 'K3'. Syr Giles a'i cynlluniodd a'i wneuthuriad o goncrid yn llawer rhy drwm i'w symud o le i le. Yn ogystal wedi sefyll mewn drycinoedd a rhew gaeaf neu ddau, 'roedd y concrid yn cracio. Er hynny cynhyrchwyd deuddeng mil ohonynt.

Peirianwyr y Llythyrdy eu hunain fu'n gyfrifol am gynllunio'r 'K4' — ond 'roedd yn llawer rhy lydan i'w osod ar balmantau y wlad ac yn ychwanegol at hyn cafodd rhywun y syniad o'i droi yn llythyrdy bychan trwy osod peiriant gwerthu stampiau o'i fewn a bocs i bostio'r llythyrau.

Ond 'roedd y stampiau yn sticio'n ei gilydd — yn wir nifer fach iawn a gynhyrchwyd o'r math annerbyniol yma.

* * * *

METHIANT fu'r 'K5' hefyd — eto o goncrid. 'Doedd dim amdani yn 1935 ond mynd yn ôl unwaith eto i ymgynghori a Syr Giles Gilbert Scott a gofyn iddo gynllunio caban newydd a fyddai'n ddefnyddiol, yn ddeniadol ac wrth gwrs yn broffidiol.

Dyna pryd y cynlluniwyd y caban teleffôn mwyaf poblogaidd ohonynt oll — y 'K6'. 'Roedd i hwn ddau ddwsin o ffenestri — wyth ffenestr gul o bobtu wyth o rai mwy eu maint yn y canol. Fe'i galwyd yn 'kiosk Jwbili' — i gofio jiwbili Brenin Siôr y Pumed.

Yn 1936 ymddangosodd y 'K6' ar strydoedd Prydain. Ond y ddyfais a'i gwnaeth yn boblogaidd oedd dyfodiad y 'Botwm B' — am y tro cyntaf erioed — a adawai i'r defnyddiwr gael ei arian yn ôl pe bai galw. Cabanau coch oedd y rhain hefyd er bod rhai gwyrdd yn Swydd Dorset a rhai melyn yng nghyffiniau Barrow-in-Furness.

Bu Syr Giles farw yn 1960 — a thros drigain mil o'i gabanau i'w gweld y flwyddyn honno ar hyd a lled y wlad. Mae'n dda deall fod rhai cynghorau cymuned yn awyddus i restru'r cabanau sydd ar ôl yn eu plwyf er mwyn eu gwarchod a'u cadw fel hen greiriau hanesyddol.



*Dyma'r caban a osododd Guto Roberts o flaen y tŷ. Mae'n un o'r rhai mwyaf gwerthfawr.*

* * * *

MAE'N wir fod y 'K6' wedi ei ddisodli gan y 'K7' — caban aliminiwm gydag un ffenestr fawr o'r to i'r llawr, ac yn wir yn sgil y 'K8' fe ddiflannodd y 'Botwm B' yn ogystal.

Ers bodolaeth *British Telecom* yn 1984 mae dyddiau y cabanau coch wedi eu rhifo. Gwerthwyd rhai cannoedd ohonynt yn breifat ac fe'u gwelir ar eu newydd wedd yma ac acw — yn dai gwydr yng nghornel yr ardd, yn gartref moethus i'r caneri neu'r budgie, yn ystafell i'r gawod, ac yn goctel cabinet mewn sawl tŷ. A beth am y gŵr o Rydychen sydd wedi gosod chwech ar hugain o gabanau o'i ddrws ffrynt hyd at y lôn fawr?

Os oes caban coch ar ôl o hyd yn eich ardal ( y 'K2' neu'r 'K6' o bosib bellach) mynnwch fod CADW — yr adran sy'n gyfrifol am greiriau hanesyddol — yn cofrestru'r caban. Maent yn brin. Gofalwch hefyd fod *British Telecom* yn cadw llygaid ar ei gyflwr yn ogystal — ar yr esgus lleiaf neidiant i'w newid a rhoi y teip newydd yn ei le.


**Y LLANC O LAN CONWY**

(Hanes John Williams [1801-59] awdur *Faunula Grustensis*)

gan Carey Jones

Pris: £3

Dim tâl cludiad i ddarllenwyr *Y Casglwr*

Anfoner at yr awdur:
**49 Court Road**
**Wrecsam, Clwyd**
**LL13 7RH**


---

*O dudalen 10*

Pwy a sut bobl oedd y tanysgrifwyr? Nid oedd llawer o 'arwyddesau' yn eu plith a mwy ohonynt yn Miss (26) nag yn Mrs (14). Ychwanegodd rhai arwyddwyr deitlau a graddau. Un yn unig a ddatgelodd ei fod yn JP, mwy yn Dr a thuag wyth yn well ganddynt Esq na Mr. Un o'r rheiny ydoedd Edward Davies, Llandinam.

Cawn gymaint ag 88 a Rev o flaen eu henwau. Diddorol fyddai ymchwilio i hanes y parchedigion hyn a'u cymharu a'u cymheiriaid na thanysgrifasant.

Y mae nifer ohonynt ymhlith y rhai a roes enw barddol mewn cromfachau gyda'u henwau bob dydd. Dyma hwy:

**Alavon, Andreas o Fôn, Anthropos, Deiniol Vychan, Elian, Eos Eilian, Garmonydd, Glan Alaw, Gwilym Ardudwy, Iolo Caernarfon, Llyfrbryf, Llew Ogwen, Mair Ogwen, Neifion, Pencerdd Malor.**

Daw un John Roberts yn adnabyddus trwy iddo ychwanegu enw lle — Khassia.

* * * *

RHYDD RHAI cyfeiriadau wybodaeth am alwedigaethau, fel groser, cemist, bancer. Mae llawer yn deilwriaid a masnachwyr dilladau. Weithiau ceir diwydiant yn y cyfeiriad — Alyn Mills, Tinplate Works a Rhiwbach Quarry.

Cawn un arwyddwr yn Master Union Workhouse. Ym myd addysg yn ogystal â Board a British School cawn Principal High School for Boys yn Llundain ac Advanced Elementary School ym Mlaenau Ffestiniog.

Tanysgrifiodd rhai academyddion. Yn eu plith 'roedd: Edwards, Principal T. Charles, MA, Aberystwyth; Edwards, Rev D. Charles, MA, Bala; Jenkins, Mr David, MusBac, Aberystwyth; Saunders, Rev David, DD; Williams, Rev Professor Hugh, Bala. Ymhlith yr ychydig fyfyrwyr o golegau ar wahân i Goleg y Bala yr oedd un Edwards, Mr Owen M., BA, Balliol College, Oxford.

* * * *

O YSTYRIED yr arolwg uchod ar y rhestr tanysgrifwyr sut batrwm a ddadlennir? Gwelwn i Daniel Owen gael cefnogaeth barod iawn yn ei wlad ei hun. Yr oedd ymateb sylweddol hefyd o siroedd Dinbych, Meirionydd, Môn a Chaernarfon a chan Gymry y tu allan i'w gwlad. Mae'n amlwg fod chwarelwyr Arfon a Meirion yn chwannog iawn i brynu'r nofel. Felly hefyd weithwyr diwydiannol y Gogledd Ddwyrain hwythau.

Ychydig llai niferus na'r chwarelwyr ydoedd gweinidogion yr Efengyl, y mwyafrif yn Fethodistiaid mi dybiwn. (Hanner dybiaf pe bae ymchwilydd yn olrhain y tanysgrifwyr y darganfyddai fod llu ohonynt yn flaenoriaid neu'n aelodau blaenllaw yn eglwysi'r gweinidogion hyn. Hwyrach inni orbwyso gwrthwynebiad yr Hen Gorff i ddarllen nofelau.)

Ond yr elfen fwyaf syfrdanol yw'r hyn nas gwelir yn y patrwm, sef y gefnogaeth a ddisgwylid ar gyfartaledd o Dde Cymru. Dim ond ugain enw o saith sir. Beth yw'r eglurhad?